# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 4 Medi |
| **Yr aelodau a oedd yn bresennol:** | Rhys A. Jones, Aelod o Fwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Chris R. Thomas, CNC<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Katy Simmons, CNC<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodaeth Cymru<br>Delyth Lewis-Jones, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth<br>Eleri Thomas, Hybu Cig Cymru |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Polina Cowley, Llywodraeth Cymru<br>Donal Sheehan, Prosiect BRIDE |
| **Ymddiheuriadau:** | Bronwen Martin, CNC<br>Nichola Salter, CNC<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Ieuan S. Davies, CNC |

## Eitem 1: Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp y Fforwm) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nododd yr ymddiheuriadau. Estynnodd Rhys groeso i Jon Goldsworthy. Jon yw Rheolwr Tir Cynaliadwy newydd CNC.

2. Caiff y cyfarfod ei recordio er mwyn cael cofnod o'r cofnodion. Bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau mewn perthynas ag eitemau'r agenda.

   - DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflen datgan buddiannau eisoes, ond dylent gyflwyno datganiad os oes ganddynt fuddiannau mewn unrhyw beth arall ar yr agenda hefyd.

## Eitem 2. Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

4. Ar ôl adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd Rhys y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd allu eu gweld. Felly, mae hi'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Aeth aelodau'r grŵp ati i adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac ni dderbyniwyd unrhyw newidiadau mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Gorffennaf.

6. Rhannodd Ieuan y cofnod o'r camau gweithredu a oedd heb eu cymryd. Cyflwynwyd diweddariadau llafar pan fo modd. Tynnwyd sylw arbennig at y canlynol:

   - PG Gorffennaf 05: Dylai Bronwen Martin, CNC, ymchwilio i weld a yw'r grŵp wedi cael ymateb i'r llythyr a anfonwyd at y Gweinidog ynglŷn â phryderon ynghylch y ddogfen 'Tenantir: Cwestiynau Cyffredin'.

     - Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru fod Bronwen wedi mynd ar drywydd y mater hwn gydag ef ac Andrew. Roedd Llywodraeth Cymru wedi anfon ymateb cychwynnol pan dderbyniwyd y llythyr yn wreiddiol, ond roedd y mater yn dal i fod yng nghyfnod yr Adolygiad Barnwrol. Roedd y llythyr braidd yn generig ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr dilynol yn mynd ar drywydd pwyntiau unigol. Cydnabyddiaeth gyffredinol gan y Gweinidog oedd y llythyr.

     - Dywedodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, ei fod wedi cyfarfod â Matthew ac Andrew. Bu'r cyfarfod yn gynhyrchiol iawn ac maent wedi datrys y problemau erbyn hyn. Mae'r mater wedi'i ddatrys bellach ac mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant o'r farn fod y ddogfen 'Cwestiynau Cyffredin' ddiwygiedig bellach yn addas i'r diben – mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yn ddiolchgar bod y cyfarfod wedi'i gynnal. Atgoffodd Matthew y grŵp fod y ddogfen 'Cwestiynau Cyffredin' ddiweddaraf wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Tenantir – Cwestiynau Cyffredin | LLYW.CYMRU

***PG Medi 01: Dylai Ieuan S. Davies, CNC, gynnwys dolen ar gyfer dogfen Llywodraeth Cymru, sef 'Tenantir – Cwestiynau Cyffredin', yng nghofnodion y cyfarfod.***

## Eitem 3. Materion sy'n Codi

7. Anogwyd y grŵp i drafod materion a oedd yn deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd â dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

8. Ni soniodd y grŵp am unrhyw faterion o'r fath.

## Eitem 4. Gwaith Modelu Amonia – y diweddaraf

9. Ymunodd Polina Cawley, Llywodraeth Cymru, â'r cyfarfod i gyflwyno'r diweddaraf ynglŷn â'r targedau ansawdd aer a chanlyniadau'r gwaith modelu senarios amonia a gynhaliwyd yn ddiweddar.

10. Cyflwynodd Polina grynodeb o'r cyd-destun deddfwriaethol. Mae Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn cyfrannu at gyflawni amcanion ein Rhaglen Lywodraethu, sef sicrhau y bydd ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn well fyth, ac ymwreiddio ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd y Bil yn ein galluogi i osod targedau ansawdd aer cenedlaethol, gan gynnig trefn gref gogyfer cyflawni uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer aer glân a chanlyniadau cysylltiedig yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

11. Mae'r Bil yn mynd trwy'r Senedd ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol ddechrau'r flwyddyn nesaf. Yn ôl y Bil, fe fydd yn rhaid gosod y targedau ansawdd aer o fewn tair blynedd i'r Cydsyniad Brenhinol. Felly, bydd yn rhaid cyhoeddi rheoliadau'r targedau ansawdd aer ym mis Ionawr 2027.

12. Cyflwynodd Polina grynodeb o'r broses ar gyfer gosod targedau. Nodi 'diben' yw'r rhan gyntaf, er mwyn pennu pam rydym yn gosod targedau. Mae rhai safonau a thargedau i'w cael eisoes sy'n pennu pa fetrigau a fydd yn cael eu defnyddio i fesur y targedau hynny (e.e. a fyddwn yn mesur allyriadau ar ffurf cilo-dunelli ynteu ar ffurf crynodiadau). Y targed ar hyn o bryd yw cael lleihad o 16% mewn allyriadau amonia erbyn 2030. Yn amlach na pheidio, caiff targedau ansawdd aer eu mesur ar ffurf crynodiadau.

13. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn mynd trwy'r gwaith modelu gyda chontractwr, sef Ricardo. Maent wrthi'n cadarnhau pwyntiau olaf y gwaith dadansoddi allyriadau. Yna, bydd y crynodiadau wedi'u cwblhau. Bydd y gwaith hwn ar grynodiadau gyda Ricardo yn cymryd oddeutu blwyddyn, gyda'r posibilrwydd y bydd yn cael ei ymestyn am chwe mis arall. Mae rhai sefydliadau wedi cyfrannu at y gwaith dadansoddi allyriadau a diolchodd Polina iddynt am eu cyfraniad.

14. Yn ystod y camau nesaf, bydd angen datblygu, monitro ac adrodd am brosesau, fframweithiau, asesiadau effaith ac ymgynghoriadau cyhoeddus. Bydd y gwaith hwn yn cael ei integreiddio'n agos â'r datblygiadau deddfwriaethol.

15. Holodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, am yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith, a pha un a allai Polina gadarnhau a fyddant yn cynnwys prawfesur gwledig o ryw fath. Dywedodd Polina fod amserlenni a chynnwys yr ymgynghoriad yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, ni fydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ystod y chwe mis nesaf. Mae'n gysylltiedig â'r Bil cyfredol, ac o'r herwydd fe fydd yr amserlen yn ddibynnol ar y Bil ac ar ddewisiadau gweinidogol. Yn ôl y Bil cyfredol, byddwn yn gosod targedau ar gyfer deunydd gronynnol (PM) 2.5. Fodd bynnag mae amonia yn un o ragsylweddion deunydd gronynnol 2.5, felly rydym yn dal i ystyried hynny wrth ymdrin ag allyriadau a dadansoddi crynodiadau. Gan fod y Bil wedi cyrraedd yr ail gam erbyn hyn, mae ychwanegiadau wedi cael eu cyflwyno iddo (mae hyn oll yn y parth cyhoeddus) – mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni ychwanegu llygryddion eraill ac efallai y bydd amonia yn cael ei osod fel targed ar gyfer ansawdd aer. Os bwrir ymlaen â PM 2.5 yn unig, bydd yr ymgynghoriad yn ymwneud â PM 2.5 yn unig. Os ychwanegir llygryddion eraill, efallai y bydd angen cynnal dau ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriadau'n cael eu cynnal yn unol â'r ddau asesiad, oherwydd rhaid inni eu

cyhoeddi. O ran prawfesur gwledig, dywedodd Polina y gallwn dawelu meddyliau'r gymuned ffermio ein bod yn cynnal trafodaethau gyda'r diwydiant a chyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Rhaid i'r holl dargedau fod yn ddichonadwy, felly ni allwn osod targed a fydd yn amhosibl ei gyflawni. O'r herwydd, mae cyswllt agos â rhanddeiliaid yn hanfodol yn hyn o beth. Ar hyn o bryd, rydym ymhell iawn o ddrafftio'r ymgynghoriad a'r asesiadau effaith – rydym yn edrych ar 2024 ymlaen.

16. O ran datblygu'r ddeddfwriaeth, mae'r Gweinidog a'r amserlen yn ein hannog i osod targedau erbyn 2027 – felly mae'r amser yn brin iawn. Hefyd, fe fydd y broses yn dylanwadu ar yr ymgynghoriad, oherwydd bydd angen oddeutu blwyddyn gyfan i gwblhau'r broses. Mae yna sawl opsiwn ar gael, er enghraifft gallwn ymgynghori ynglŷn ag opsiynau polisi, neu efallai y gallem hyd yn oed ymgynghori ynglŷn â fersiwn ddrafft o'r rheoliadau, ond ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod beth fydd cynnwys yr ymgynghoriad.

17. Mae'r broses gosod targedau yn rhan o ddatblygiad y fframwaith a'r polisi. Mae datblygu deddfwriaeth yn cynnwys cyfarwyddiadau a fframweithiau polisi. Ar y cyd ag NFU Cymru, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a CNC yn rhan o'r broses hon ar gyfer creu fframwaith cryf i gyflawni'r targedau. Fodd bynnag, nid nyni sy'n gyfrifol am osod y targedau – y Gweinidog a fydd yn penderfynu beth yn union fydd y targedau, sut caiff y fframwaith ei lunio a phwy fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb. Ar hyn o bryd, nid ydym ond megis dechrau'r broses o bennu'r diben a'r metrigau ac mae gennym Banel Cynghori ar Ansawdd Aer sy'n rhoi cyngor annibynnol inni.

18. Cyflwynodd Polina drosolwg o'r gwaith modelu amonia fel rhan o'r broses gosod targedau. Rydym wedi ymgysylltu â mwy na 150 o randdeiliaid ac rydym wedi cynnal dau weithdy. Mae a wnelo'r gwaith hwn â mwy nag amonia – mae'n cynnwys llygryddion eraill hefyd, PM 2.5 yn bennaf. Diolchodd Polina i'r rhai a oedd wedi ymgysylltu â'r broses hyd yn hyn.

19. Mae gennym dair senario, sef canolig, uchel a thybiannol. Mae pob senario yn cynnwys 30 o fesurau, er enghraifft deiet protein isel, gorchuddio storfeydd slyri a thriniaeth facterol. Mae gan bob mesur yn y senarios ddyddiad dechrau a dyddiad gorffen, ynghyd â chyfradd dderbyn amcangyfrifedig. Yn ystod y gweithdai, soniodd Ricardo am amrywiaeth o randdeiliaid a chafwyd trafodaethau manwl i gadarnhau rhai pethau. Yna, aeth Ricardo ati i greu'r cyfraddau derbyn, y dyddiadau a'r mesurau ar gyfer pob senario. Dull cwbl wyddonol yw hwn. Dangosodd Polina graffiau, siartiau a thablau a disgrifiodd ganlyniadau pob senario.

20. Dywedodd David Ball, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, fod y cyflwyniad yn un diddorol iawn. Cyfeiriodd David at y ffaith bod Polina wedi dweud bod rhan o waith Ricardo yn cynnwys modelu beth allai'r allyriadau fod, gan ystyried cyfraddau derbyn disgwyliedig. A oes gennych unrhyw wybodaeth ynglŷn â pha gyfraddau derbyn a gymhwyswyd at y gwahanol fesurau a restrwyd? Dywedodd Polina fod taenlen fanwl iawn i'w chael lle nodir y manylion. Yn anffodus, dywedodd Polina na all rannu'r cyflwyniad, ond dywedodd fod rhai rhanddeiliaid eisoes yn ymwybodol o'r manylion gan eu bod yn gysylltiedig â'r broses. Nid oedd yr holl wybodaeth wedi'i chyhoeddi yn y parth cyhoeddus eto. Fodd bynnag, rhannodd Polina ei sgrin i ddangos y daenlen anferth a chymhleth a archwiliwyd gan Ricardo.

Awgrymodd David fod y cyfraddau derbyn yn rhai tybiannol ac y gallai materion allanol, megis cyllid a deddfwriaeth, ddylanwadu arnynt. Mae'r paramedrau a ddefnyddiwyd yn

y daenlen yn hyblyg gan ddibynnu ar y grymoedd allanol, ac o'r herwydd, byddent yn cael effaith sylweddol ar y graffiau. Dywedodd Polina fod y daenlen yn hynod hyblyg; mae yna gynifer o bethau ansicr i'w cael, ac er ein bod wedi ceisio ymgysylltu â chynifer o randdeiliaid â phosibl, mae yna rai rhanddeiliaid mewn sectorau eraill sy'n dal i ymgysylltu er bod y gwaith modelu wedi'i gwblhau. Mae'r data hwn yn gysylltiedig â Rhestrau Ansawdd Aer y DU ac mae'n rhan o Adolygiad Rhestrau'r DU. Hefyd, rydym wedi canfod bwlch data difrifol iawn yn ymwneud â ffermydd, ac rydym yn ceisio rhoi blaenoriaeth i ymdrin â'r mater.

Dywedodd David ei fod wedi bod yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn wynebu'r un broblem o ran diffyg data a thystiolaeth ddibynadwy. Dywedodd David nad oedd yn gallu gweld y gyfradd dderbyn a oedd wedi'i chymhwyso at orchuddio storfeydd slyri; ond beth bynnag fo'r gyfradd, pe bai'r arfer hwnnw'n cael ei fandadu, byddai hynny'n effeithio'n fawr ar y mesur. Dywedodd David nad oedd yn awgrymu y dylid gwneud hyn – y pwynt yr oedd yn ceisio'i wneud oedd y gellid effeithio'n fawr ar y cyfraddau derbyn hynny yn y dyfodol. Yn ôl Polina, roedd hi'n ddiddorol iawn gweld nad oedd gorchuddio storfeydd slyri ymhlith y mesurau a oedd wedi sgorio uchaf. Dywedodd Polina fod hyn yn peri syndod mawr iddi, oherwydd rhyw dair blynedd yn ôl, roedd y mesur hwn ymhlith y rhai uchaf. Yn ôl David, mae'r mesur hwn yn cyfateb i 9% yn unig o gyfanswm allyriadau amonia y DU. Yn sgil trafodaethau gyda Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd, dywedodd Polina eu bod ar ddeall nad yw gorchuddio storfeydd slyri ymhlith yr opsiynau gwirioneddol ymarferol gan fod amryfal rwystrau i'w cael (e.e. cyflenwyr, mynediad, y seilwaith yng Nghymru, y cyflenwad a'r galw i gontractwyr etc.). Caiff hyn oll ei adlewyrchu ym model Ricardo. Dywedodd Polina eu bod hefyd wedi cael trafodaethau gyda chydweithwyr sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ynghyd â nifer o randdeiliaid eraill, a bod y ddadl yn ymwneud yn llythrennol â chyfradd dderbyn o 5% mewn perthynas â mesur arbennig – treiddiwyd yn eithriadol o fanwl i bethau, ond rydym yn ceisio bod mor realistig â phosibl. Pwysleisiodd Polina y targedau dichonadwy, a phwysleisiodd hefyd y bydd y mesurau'n ddiystyr os na fydd y ffermwyr yn dymuno ymhél â nhw. Dywedodd Polina fod ganddi ddiddordeb mawr yn y driniaeth facterol gan fod yr elfen honno'n gysylltiedig â buddiannau ffermwyr. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â chyflwyniad blaenorol gan Aled Davies, Pruex. Dywedodd Polina na allant annog busnes arbennig yng Nghymru a bod yn rhaid rhoi dull cyffredinol ar waith.

21. Nododd Delyth Lewis-Jones, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, fod gwella geneteg yn un maes allweddol, a gofynnodd pam hynny tybed? Gan y bydd gwella geneteg yn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, gan arwain felly at lai o wartheg? Mae'r arfer penodol hwnnw yn wahanol iawn i leihau amonia o du gwartheg sydd eisoes ar y fferm. Dywedodd Polina fod gwella geneteg yn hynod annisgwyl i ninnau hefyd ac nad oedd wedi bod yn rhan o'r gwaith modelu blaenorol o gwbl. Rydym ninnau hefyd yn ceisio deall hyn. Hefyd, ceir rhai pryderon difrifol iawn ynglŷn â'r mater ymhlith y gymuned ffermio, a hefyd ymhlith gweithwyr iechyd proffesiynol. Nid ymdrin ag amonia yn unig yw'r nod trwy wella geneteg – y bwriad yw ymdrin â methan hefyd. O ran lleihau methan, dywedodd Delyth fod hyn yn gysylltiedig â lleihau nifer yr anifeiliaid a bod hynny'n destun pryder enfawr i'r sector llaeth ac eidion yng Nghymru. Dywedodd Polina fod hyn oll yn newydd ac nad ydym wedi ystyried yr elfen honno'n fanwl eto. Hefyd, mae swyddogion iechyd yn poeni am y peth, er enghraifft sut bydd yn effeithio ar y gadwyn fwyd. Nid oes llawer o waith ymchwil wedi'i gynnal i'r elfen honno chwaith. Dywedodd Delyth mai'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth sy'n arwain gwaith yn ymwneud â geneteg llaeth ar gyfer y DU, a'i bod yn fodlon trafod hyn

gyda Polina; ond dywedodd ei bod o'r farn bod cynhyrchiant ac effeithlonrwydd o ran maint y fuwch yn berthnasol hefyd. Dyna un o'r dangosyddion amgylcheddol allweddol wrth symud ymlaen.

22. Awgrymodd Gareth Parry, FUW, fod angen inni, fel grŵp, gadw golwg fanwl ar y Bil hwn a sut bydd pethau'n datblygu dros y blynyddoedd nesaf, oherwydd os caiff unrhyw un o'r mesurau hyn eu gwneud yn orfodol yn y dyfodol, rhaid inni sicrhau na fyddant yn gorfodi ffermwyr i ddilyn trywydd lle bydd yn rhaid iddynt newid strwythur eu busnes (e.e. newid eu cynllun busnes, niferoedd eu stoc etc.) er mwyn cydymffurfio â'r mesurau a'r targedau. Hefyd, os caiff rhai pethau eu mandadu, yna fe fydd angen inni sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei ddarparu, a bod y canlyniadau anfwriadol posibl yn cael eu hystyried. Cytunodd Polina. Os nad yw ffermwyr yn dymuno rhoi pethau ar waith, mae profiad yn dangos y bydd llwybr anodd o'n blaenau. Rydym hefyd yn ceisio ymchwilio i fesurau a fydd o fudd gwirioneddol i ffermwyr yn y lle cyntaf.

23. Diolchodd Rhys i Polina am gyflwyniad hynod ddiddorol a lwyddodd i ysgogi'r meddwl. Mae'r drafodaeth ynglŷn â natur y gwaith modelu a'r senarios yn awgrymu bod angen ymgysylltu'n barhaus â'r grŵp hwn fel y gellir mireinio'r model a chydnabod pa fesurau dichonadwy y gellir eu rhoi ar waith. Hefyd, mae'n bwysig sicrhau yr ymgysylltir â'r ymgynghoriad yn y dyfodol.

24. Dywedodd Dennis fod costau yn elfen hollbwysig sy'n effeithio ar faint o brotein a ddefnyddir gan ffermwyr. Os ydych yn bwydo gwartheg ar wyndynnydd meillion coch neu rygwellt – sef rhywbeth y cawn ein hannog i'w wneud – yna rydych yn lleihau faint o nitrogen artiffisial neu slyri a roddwch ar y tir, ac yn ei dro mae hyn yn lleihau faint o amonia a gaiff ei ryddhau i'r atmosffer. Hefyd, rhaid ichi roi hyn a hyn o brotein i wartheg – os na chaiff gwartheg ddigon o brotein, ni waeth be fo'r porthiant, bydd y rwmen yn rhoi'r gorau i weithio, a gall hynny fod yn angheuol. Ymhellach, mae gwartheg angen protein am resymau eraill, megis ar gyfer eu llaeth tor; gall rhy ychydig o brotein effeithio ar ansawdd y llaeth tor, a gall hynny fod yn niweidiol i loi. Felly, rhaid ystyried ffactorau eraill a fydd yn effeithio ar y mesurau a awgrymir. Dywedodd Polina fod Dennis wedi tynnu sylw at y ffaith y gall rhai mesurau fod yn groes i'w gilydd – mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a'r contractwr yn ymwybodol ohono. Mae yna anfanteision yn perthyn i bob model ac mae yna bethau na all y gwaith modelu eu hegluro'n llwyr, ond mae hyn yn rhan o'r fethodoleg a roddir ar waith gan y contractwr.

25. Awgrymodd David ffordd arall o ymdrin â hyn – sef ystyried y costau net ar gyfer rhoi rhai o'r mesurau hyn ar waith. Yn y cyflwyniad, nodwyd costau disgwyliedig y mesurau hyn – gellid gosod yr wybodaeth hon yn erbyn y manteision o ran lleihad cymharol mewn amonia (e.e. byddai'r gost fesul cilo-dunnell o leihad mewn amonia yn ffigur diddorol). Gan fod Polina wedi gadael y cyfarfod cyn i David gyflwyno'r pwynt hwn, dywedodd Rhys y byddai'n dda cyfleu'r neges honno iddi.

***PG Medi 20: Dylai Ieuan Stephen Davies, CNC, anfon pwynt David Ball at Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, ynglŷn â dull gwahanol o ymdrin â'r gwaith modelu.***

***PG Medi 03: Dylai Ieuan Stephen Davies, CNC, rannu manylion cyswllt Polina Cowley er mwyn i'r aelodau allu mynd ar drywydd unrhyw gwestiynau pellach yn ymwneud â'r gwaith modelu amonia.***

26. Awgrymodd Rhys y gallai'r grŵp ystyried a oes ganddo rôl o ran ymgysylltu â'r broses ymgynghori.

## Eitem 5. Cyflwyniad: Prosiect BRIDE (Biodiversity Regeneration in a Dairying Environment)

27. Ymunodd Donal Sheehan, Prosiect BRIDE, â'r cyfarfod i gyflwyno'r prosiect. Nod y prosiect yw llunio a gweithredu dull 'seiliedig ar ganlyniadau' ar gyfer gwarchod, cyfoethogi ac adfer cynefinoedd ar diroedd ffermio dwys yr iseldir. Ffermwr llaeth o Swydd Cork yn Ne Iwerddon yw Donal, ac ef hefyd yw Rheolwr Prosiect Bride. Mae Bride yn cyfeirio at Afon Bride, ond mae hefyd yn golygu 'Biodiversity Regeneration in a Dairying Environment'. Sefydlwyd y prosiect er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth ar diroedd ffermio dwys. Wrth ganolbwyntio ar fioamrywiaeth, mae yna lu o bethau i'w hystyried yn cynnwys ansawdd y dŵr, bioamrywiaeth ac atafaelu carbon. Mae Prosiect Bride yn berthnasol i Ddyffryn Bride, ond gellir rhoi arferion 'ffermio gyda natur', ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiect, ar waith mewn mannau eraill hefyd.

28. Mae'r prosiect hwn yn Brosiect Partneriaeth Arloesi Ewrop a chaiff ei gydariannu gan yr UE a'r Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr yn Iwerddon. Prosiect peilot ydyw, ac fe'i sefydlwyd i wella bioamrywiaeth ar diroedd ffermio dwys. Cafodd y prosiect €1.1 miliwn o gyllid am chwe blynedd ac roedd y cylch gwaith eang iawn yn cynnwys gwella bioamrywiaeth ar diroedd ffermio dwys. Roedd Donal yn ddiolchgar iawn i'r Adran Amaethyddiaeth am roi cymaint o hyblygrwydd i'r prosiect. Prosiect ar raddfa tirwedd ydyw. Mae'n ymwneud â Dyffryn Afon Bride yn ei gyfanrwydd ac mae'n canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol ar lefel y dirwedd. Mae Dyffryn Bride oddeutu 40 cilometr x 15 cilometr o faint.

29. Yn y lle cyntaf, fe wnaethom siarad â ffermwyr mewn cyfarfodydd cyhoeddus oherwydd roeddem eisiau ymgysylltu â ffermwyr o bob math, yn cynnwys ffermwyr eidion, ffermwyr tir âr, ffermwyr ceffylau a ffermwyr defaid. O safbwynt yr amgylchedd, roedd yn angenrheidiol i bob un ohonom anelu at yr un nodau. Yn y pen draw, os ydych yn ymhél ag ansawdd dŵr, bioamrywiaeth neu atafaelu carbon, dylai'r elfennau hollbwysig fod yr un fath i bawb yn yr ardal. Ar ôl siarad â ffermwyr unigol, penderfynasom ar gynllun gwella bioamrywiaeth penodol ar gyfer pob fferm. Y ffocws oedd neilltuo lle i natur ar bob fferm, a fyddai'n cyfateb i 10% o arwynebedd y fferm; erbyn hyn, mae'r targed hwn i'w weld ledled Ewrop. Ond y broblem fwyaf yw'r ffaith na cheir unrhyw sail gyfreithiol ar gyfer gwella bioamrywiaeth, yn wahanol i dargedau atafaelu carbon a thargedau ansawdd dŵr, sy'n gyfreithiol rwymol.

30. Roedd y 43 ffermwr yn cynnwys 19 o ffermwyr llaeth a 15 o ffermwyr eidion, gyda'r gweddill yn ffermwyr ceffylau, yn ffermwyr tir âr ac yn ffermwyr defaid. Cawsom €150,000 yn ychwaneg gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop ar gyfer llunio porth gwe ac ap. Roeddem angen technoleg i ategu'r broses, a bellach mae gennym borth gwe y gallwn ei ddefnyddio i fapio unrhyw fferm yn y byd, gan ei fod yn defnyddio Google Maps. Yna, fe wnaethom ymweld â phob fferm i ddangos yr ap, gan fynd ati i bennu gwerth y cynefinoedd trwy ddefnyddio cardiau sgorio – hynny yw, cardiau sgorio unigol ar gyfer gwahanol gynefinoedd (e.e. cerdyn sgorio ar gyfer lleiniau clustogi ar lannau afonydd, cerdyn sgorio ar gyfer gwrychoedd a cherdyn sgorio ar gyfer gwlyptiroedd, etc.). Yn ôl Donal, po uchaf y sgôr, po uchaf y taliad; ond ar y cychwyn, cafodd pob un o'r ffermwyr €2000. Bwriad y cardiau sgorio yw cymell y ffermwyr i reoli eu cynefinoedd mewn ffordd a fydd o fudd i ecoleg. Ar sail y cardiau sgorio, aethom ati i lunio mynegai bioamrywiaeth tir ffermio, sef faint o le a roddir i natur (% SFN) ar y fferm, ac ansawdd y lle hwnnw. Efallai mai ychydig o le sydd wedi'i neilltuo i natur, ond gallai'r lle hwnnw fod o ansawdd uchel; efallai fod cryn dipyn o le wedi'i neilltuo i natur, ond gallai fod o ansawdd gwael.

31. Dangosodd Donal rai mapiau a disgrifiodd y sefyllfaoedd ‘cyn ac ar ôl’ mewn perthynas â faint o le a roddir i natur, ac ansawdd y lle hwnnw. Yna, dangosodd y cardiau sgorio cyfatebol. Y bwriad yw cymell ffermwyr i newid eu harferion rheoli er mwyn cyfoethogi bioamrywiaeth.

32. Disgrifiodd Donal yr adroddiadau, y tystysgrifau a’r cyfraddau talu ar gyfer y gwelliannau. Trwy wobrwyo’r ffermwyr, gellir eu cymell i gyflwyno gwelliannau – naill ai trwy neilltuo rhagor o le i natur neu trwy wella ansawdd y lle a neilltuir i natur. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff y ffermwyr dystysgrif. Rydym yn casglu’r holl wybodaeth a gyflwynir gan y ffermwyr, gan gofnodi’r data ar y porth. Mae nifer o wahanol adrannau i’w cael, yn cynnwys rhywogaethau targed, lle i natur a chynefinoedd, a gellir crynhoi’r data a’i arddangos ar ffurf adroddiadau.

33. Trafododd Donal ansawdd Afon Bride. Pan gynhaliwyd sampl gwyddoniaeth dinasyddion fis Hydref diwethaf, ychydig iawn o nitradau a oedd i’w cael yn rhan gyntaf Afon Bride. Ond erbyn cyrraedd y dŵr du, roedd yr afon yn binc tywyll iawn, sef arwydd o nitradau. Gwelwyd yr un tuedd yn yr is-afonydd, ond arhosai Afon Bride yr un fath oherwydd effaith gwanediad. Dangosodd hyn y dylem ganolbwyntio ar yr is-afonydd trwy annog ffermwyr i fynd i’r afael â phethau a fyddai’n gwella ansawdd y dŵr. Yn ôl Donal, mae llawer o broblemau o ran ansawdd dŵr yn gysylltiedig â lefel uchel o nitradau.

34. Yn awr, mae gennym ardystiad ‘Ffermio gyda Natur’ – hynny yw, os ydych yn ffermio gyda natur, caiff 10% o’ch tir ei neilltuo ar gyfer natur ac mae ansawdd y lle hwnnw yn cyfateb i safon ‘B’, sef safon dda iawn. Ein gobaith yw arddangos y safon hon ar ddeunyddiau pacio bwydydd er mwyn i gwsmeriaid allu talu am gynhyrchion, gyda’r arian yn mynd yr holl ffordd yn ôl at y ffermwr. Daw’r prosiect i ben ddiwedd y flwyddyn hon.

***PG Medi 04: Dylai Ieuan Stephen Davies, CNC, rannu copi o gyflwyniad Donal Sheehan yn ymwneud â Phrosiect BRIDE.***

35. Gofynnodd Rhys sut câi’r ffermwyr eu hannog i ymuno â’r cynllun, a pha un a oedd awydd cyffredinol am rywbeth o’r fath yn bodoli eisoes. Yn ôl Donal, fe wnaethant ddefnyddio postiad ar y cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu’r cyfarfod cychwynnol. Daeth 120 o ffermwyr draw i’r cyfarfod – y nod gwreiddiol oedd gweld 20 o bobl yn mynychu. Soniwyd yn gyhoeddus bod swm o €1.1 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn Nyffryn Bride – swm enfawr, oherwydd ceir deg o bentrefi bach yn yr ardal hon. Y gred gyffredinol ymhlith y cyhoedd oedd nad oedd ffermwyr yn bwriadu gwneud unrhyw beth i wella bioamrywiaeth neu ansawdd y dŵr, ond llwyddodd y ffermwyr lleol i wrth-droi’r gred hon yn llwyr.

36. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod Donal wedi sôn bod asesiad o’r awyr wedi’i gynnal trwy gyfrwng porth a gofynnodd a yw hyn ar gael y tu allan i’r prosiect. Dywedodd Donal eu bod yn awyddus iddo fod ar gael, ond rhaid i rywun oruchwylio a mesur y ffermydd hyn er mwyn sicrhau ardystiad. Rydym eisiau i ddefnyddwyr sylweddoli na chaiff pethau mo’u ‘gwyrddgalchu’, a bod y cynhyrchion yn dod o ffermydd a chanddynt gynefinoedd o ansawdd da lle darperir lle sylfaenol i natur. Mae yna enghreifftiau lu o wyrddgalchu yn tarddu o’r diwydiant – mae hyn yn niweidio ein henw da fel ffermwyr. Gallem fynd ati i fapio ffermydd yng Nghymru, ond byddai’n rhaid i rywun ddilysu’r gwaith hwn gyda’r ap trwy fynd yno a cherdded o gwmpas y ffermydd.

37. O ran cymell ffermwyr i newid eu hymddygiad, soniodd Ieuan am y broses sgorio, yr ardystiad ar y cynnyrch terfynol a'r cymhelliant ariannol – ond a yw hyn yn ddigon i sicrhau y bydd unrhyw newid mewn ymddygiad yn para yn y dyfodol? Ym marn Donal, ni all cynlluniau amaeth-amgylcheddol gynnig ateb. Y broblem gyda chynlluniau amaeth-amgylcheddol yw eu bod yn chwit-chwat, ac mae ffermwyr yn sylweddoli hynny. Yn ôl Donal, rydym wedi defnyddio gormod o dir yn y gorffennol i gynhyrchu bwyd, ac yn awr rydym yn cael anawsterau o ran bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac atafaelu carbon. Dywedodd Donal y byddai'n well ganddo weld cymhelliant parhaol o du defnyddwyr gan y byddai pawb ar eu hennill – mae ffermwyr yn darparu nwyddau cyhoeddus.

38. Dywedodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, fod sylwadau Donal ynglŷn ag is-afonydd ac ansawdd dŵr wedi ei galonogi. Dywedodd Creighton ei fod yn ymwybodol o'r anawsterau o ran dŵr du, ond nad oedd wedi clywed am Brosiect Bride o'r blaen. Trafododd Creighton rai o'r materion yr oedd wedi'u gweld yn nechrau'r blaenddyfroedd. Cyfeiriodd Creighton at y ffaith fod 43 o ffermwyr yn rhan o'r cynllun, a gofynnodd faint o ffermydd sydd i'w cael yn y dalgylch. Pob un ohonynt, yn ôl Donal. Os oeddech wedi eich lleoli oddi mewn i ffin y dalgylch, roeddech yn gymwys – dywedwyd hynny'n glir iawn. Dywedodd Donal fod pob un o'r ffermwyr yn gyflenwyr i'r prosesydd llaeth a'r prosesydd cig yn Nyffryn Bride, a'i bod yn bwysig cynnwys y busnesau hyn hefyd gan y byddai hynny o fudd iddynt hwythau fel rhanddeiliaid.

    Esboniodd Creighton ei bryder ynglŷn ag un peth – o blith dalgylch o 10 fferm, er enghraifft, mae naw o ffermydd yn gwneud gwaith da, ond nid yw hynny'n wir am y fferm arall, felly pan aiff rhywbeth o'i le, caiff gwaith y naw ffermwr arall ei golli. Soniodd Creighton fod yna 43 o ffermydd yn y prosiect, ond bod y dalgylch yn cael ei bennu gan y Bwrdd Pysgodfeydd Mewndirol, felly faint o ffermydd sydd oddi mewn i'r ffin honno? Dywedodd Donal na wyddai'r ateb i sicrwydd, ond bod o leiaf 400 o ffermydd i'w cael yno. O ran yr enghraifft lle mae un person yn gyfrifol am yr holl niwed, dywedodd Donal eu bod wedi cael eu beirniadu ar ddechrau'r prosiect am beidio â chanolbwyntio ar droseddwyr ymddangosiadol (ffermwyr llaeth ar raddfa fawr at ei gilydd) a gâi lawer o gyhoeddusrwydd anffafriol. Nid aeth y prosiect ati o gwbl i ganolbwyntio ar gynnwys pobl nad oeddynt yn awyddus i ymuno â'r prosiect; yn hytrach, canolbwyntiwyd ar y bobl a oedd yn awyddus i gyflwyno newidiadau. Yn ôl Donal, er i rai ffermwyr wrthod ymuno â'r prosiect ar y dechrau, yn ddiweddarach roeddynt yn awyddus i ymuno ag ef ar ôl gweld y gwaith da a wnaed a gweld ymateb cadarnhaol y cyhoedd.

39. Cytunodd Dennis â sylwadau Donal ynglŷn â chynlluniau amaeth-amgylcheddol. Yn ôl Dennis, ymddengys fel pe bai'r prosiect hwn yn debyg i'r prosiect yn Burra, ond ei fod wedi cael ei addasu ar gyfer ffermio dwys ar yr iseldir. Gofynnodd Dennis faint o ffermwyr o blith y 43 sy'n rhentu eu tir fel tenantiaid a faint sy'n berchen-feddianwyr. Os ydynt yn denantiaid, bydd cytundeb eu tenantiaeth yn cyfyngu ar yr hyn y gallant ei wneud. Dywedodd Donal fod y cwestiwn hwn yn un da, oherwydd nid ydych eisiau plannu coed i rywun sydd, efallai, yn mynd i gymryd y tir oddi arnoch ymhen blwyddyn neu ddwy, a dywedodd fod hyn yn broblem. Gwnaed y mwyafrif o'r gwelliannau ar dir a oedd yn eiddo i'r ffermwyr eu hunain. Esboniodd Donal fod pob un o'r ffermwyr a oedd yn rhan o'r prosiect yn berchen ar dir, a'u bod hefyd yn rhentu rhywfaint o dir – nid oedd yr un ohonynt yn rhentu tir 100%. Roedd yr holl ffermwyr a oedd yn rhan o'r prosiect yn cael taliadau blynyddol am eu cynefinoedd, sef taliadau a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau, ond roedd y swm yn ddibynnol ar ansawdd bioamrywiaeth y cynefin hwnnw (e.e. plannu coed/gwrychoedd, creu pyllau etc.). Cafodd yr holl dir ei sgorio, yn cynnwys tir rhent. O safbwynt rheoli, byddai'r arfer o adael i wrychoedd dyfu (sef un o'r

mesurau a argymhellwn) wedi cael ei roi ar waith ar gyfer y bloc yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys tir rhent. Soniodd Donal am un achos arbennig – cafodd un o'r ffermwyr ei sgorio yn gyntaf yn 2018, ond yna prynodd fferm newydd yn 2020. Aseswyd y lle a neilltuir i natur ar y fferm newydd a darganfu'r ffermwr fod ei fynegai bioamrywiaeth tir ffermio wedi gostwng o 12 i chwech gan nad oedd fawr ddim lle i natur ar y fferm newydd – arweiniodd hynny at ostwng ei gyfartaledd yn gyffredinol. Trafododd Donal y cymhelliant o ran cael pob ffermwr i anelu at darged o 10%, pa un a oeddynt yn berchen ar y tir neu'n rhentu'r tir. Hanfod hyn oll yw gwobrwyo ffermwyr sydd â lle i natur yn ogystal â thir cynhyrchiol. Rhaid rhoi gwerth ar dir nad yw'n dir cynhyrchiol; fel arall, byddwn yn dal i weld dirywiad mewn bioamrywiaeth.

40. Cyfeiriodd Rhys at y ffaith y bydd y prosiect yn dod i ben eleni a gofynnodd beth fydd y camau nesaf. Dywedodd Donal ei fod yn bwriadu dychwelyd at ffermio, ond nid oedd yn siŵr beth fydd y camau nesaf ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae'r Adran Amaethyddiaeth wedi dysgu gwersi yn sgil y prosiect, ond mae'r cyllid wedi dod i ben. Dywedodd Rhys y byddai'n ddiddorol gweld a fydd prosiectau eraill yn deillio o'r gwaith hwn yn Iwerddon. Ymddengys fod pethau'n symud tuag at ddefnyddio dulliau ar lefel y dalgylch neu ddulliau ar lefel y dirwedd er mwyn sicrhau newidiadau cadarnhaol ar gyfer ansawdd dŵr a bioamrywiaeth. Diolchodd Rhys i Donal am ymuno â'r cyfarfod a hefyd am y cyflwyniad a'r drafodaeth hynod ddiddorol.

## Eitem 6. Y Grŵp Technegol Amaethyddol – y diweddaraf

41. Cyflwynodd Ieuan S. Davies, CNC, a Delyth Lewis-Jones, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, ddiweddariad llafar ynglŷn â chynnydd y Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA. Dywedodd Delyth ein bod yn gobeithio cyflwyno rhywbeth mwy sylweddol gerbron y grŵp heddiw. Un o'r camau cyntaf oedd gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o ffosffadau mewn afonydd. Hefyd, rydym wedi bod yn edrych ar ddulliau arloesol sydd eisoes yn cael eu rhoi ar waith neu'n cael eu datblygu ar gyfer delio â slyri neu weddillion treuliad anaerobig, ac mae yna rai prosiectau diddorol yn cael eu cynnal, yng Nghymru a hefyd trwy'r DU.

42. Mae cynulleidfa'r adroddiad yn eithaf eang – dyma ystyriaeth bwysig. Rhaid i'r adroddiad ei hun fod yn llawn gwybodaeth ar gyfer pob mathau o bobl, yn cynnwys Byrddau Rheoli Maethynnau, ffermwyr a phobl oddi allan i'r diwydiant amaethyddiaeth. Disgrifiodd Delyth strwythur yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:
- Cyflwyniad
- Cefndir
- Rôl ffosfforws (mewn priddoedd, anghenion planhigion a chnydau, effeithiau ar ddŵr croyw, gwaddol ffosfforws, rôl gwaith dadansoddi pridd a chyfyngiadau gwaith samplu).
- Y tirlun rheoleiddiol
- Arloesi
- Buddsoddi
- Heriau a bylchau
- Argymhellion

43. Dywedodd Delyth fod y grŵp wedi trefnu'r argymhellion o dan chwe phrif bennawd, sef: cyngor ac arweiniad, cymorth buddsoddi, offer, rheolau a rheoliadau, arloesi ac ymchwil. Mae'r argymhellion hyn yn eithaf eang – er enghraifft, y gobaith yw y bydd yr adran cyngor ac arweiniad yn arwain Cyswllt Ffermio, fel y prif wasanaeth cynghori yng

Nghymru, i ganolbwyntio mwy ar ffosffadau, yn cynnwys effeithiau uniongyrchol ffosffadau ar afonydd, yr hyn y gall ffermwyr ei wneud, a rhannu arferion gorau sydd ar waith mewn dalgylchoedd. Dywedodd Delyth fod yna nifer enfawr o brosiectau sy'n debyg i brosiect Bride, ond eu bod wedi'u lleoli oddi mewn i ddalgylchoedd Cymru. Mae hi'n bwysig iawn inni rannu'n ehangach y pethau a ddysgir yn sgil y prosiectau hyn.

44. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiad wedi'i gwblhau, ond rydym wrthi'n ystyried bylchau. Mae'n debyg y bydd rhai pethau wedi'u hepgor – rhaid cofio bod y grŵp yn fach. Ond y gobaith yw y bydd yr adroddiad yn cynnig arweiniad wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion. Bydd angen ymchwilio i'r argymhellion hyn i weld a ydynt yn ddichonadwy, oherwydd bydd rhai ohonynt yn cael eu harwain gan y diwydiant a bydd rhai ohonynt yn dod o dan arweiniad y Llywodraeth.

45. Yn ôl Ieuan, un her wrth lunio'r adroddiad hwn oedd lefel angenrheidiol yr wybodaeth a'r manylion. Mae cyrhaeddiad yr adroddiad yn eang ymhlith y gynulleidfa darged, a thasg anodd fu cyflwyno'r adroddiad mewn ffordd a oedd yn addas i bawb, gan fynd ati hefyd i gynnwys gwybodaeth fanylach ar gyfer y rhai a oedd ei hangen. Mae a wnelo cylch gwaith yr adroddiad â thystiolaeth ynghylch ffosfforws a'r effaith a gaiff ffosfforws ar ein cyrsiau dŵr, a bu hyn ynddo'i hun yn waith heriol – mae yna gryn dipyn o arloesi a thechnoleg sy'n uniongyrchol berthnasol i'r maes hwn, a gall hyn droi ein golygon oddi ar ddulliau mwy cyfannol o reoli tir sydd ar gael i ffermwyr a rheolwyr tir ar gyfer lliniaru problemau ffosfforws. Bu'r dasg o sicrhau cydbwysedd iawn rhwng y ddwy elfen hyn yn rhan ddiddorol o'r broses. Drwy gydol y gwaith, llwyddwyd i ymgysylltu'n effeithiol â holl aelodau'r grŵp. Yn yr argymhellion, cynigir y dylid neilltuo camau gweithredu i wahanol grwpiau wrth symud ymlaen ar gyfer cynnal rhagor o ymchwil, er enghraifft.

46. Gofynnodd Gareth pryd fydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a'i rannu gyda'r grŵp hwn. Dywedodd Delyth y bydd gwaith ar yr adroddiad yn parhau am y pythefnos nesaf. Yna, bydd yr adroddiad yn cael ei anfon yn ôl at yr unigolion a'r sefydliadau sy'n rhan o'r grŵp llywio fel y gellir ei gymeradwyo; efallai y bydd angen pythefnos arall i wneud hynny. Fel grŵp, teimlwn ei bod hi'n bwysig iawn inni wneud pethau'n iawn, oherwydd dyma ein cyfle i gyfleu'r negeseuon i gynulleidfa ehangach ac awgrymu argymhellion a fydd, yn y pen draw, yn helpu'r diwydiant amaethyddol.

47. Holodd Rhys am y broses ar gyfer drafftio, ailddrafftio, cadarnhau newidiadau terfynol a chyhoeddi'r adroddiad. Holodd Rhys hefyd a ofynnir i'r grŵp hwn wneud unrhyw beth, ac os felly, pryd y gallwn gyflwyno adborth ychwanegol. Dywedodd Delyth fod y gweithgor wedi'i sefydlu ar ffurf Is-grŵp o'r grŵp hwn, felly bydd y grŵp hwn yn cael gweld yr adroddiad a bydd modd cyflwyno sylwadau arno. Fodd bynnag, dylai'r aelodau ystyried faint o amser a gymerwyd i gyrraedd y cam hwn. Cawsom drafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â phwy a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros sicrhau y bwrir ymlaen â'r argymhellion, ond nid yw'r cwestiwn hwn byth wedi cael ei ateb (e.e. ai'r grŵp hwn a fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb, ynteu a fydd y Grŵp Technegol Amaethyddol yn parhau â'r gwaith). Holodd Rhys a oes rhywun o Lywodraeth Cymru yn aelod o'r grŵp technegol. 'Na', oedd ateb Delyth, ond ceir cysylltiadau ag unigolion. Ymddengys eu bod yn awyddus i barhau â'r Grŵp Technegol Amaethyddol, oherwydd mae rôl y grŵp newydd yn gorwedd oddi mewn i strwythur y Prosiect Afonydd ACA yn awr. Dywedodd Ieuan nad yw pethau'n glir a bod trafodaethau'n dal i gael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru. Nododd Ieuan nad adroddiad CNC mo hwn, ond dywedodd mai ef yw'r ysgrifenyddiaeth a bod Marc Williams yn rhan o'r grŵp fel arweinydd Amaethyddiaeth CNC a'u bod, gyda'i gilydd,

wedi sicrhau bod y trafodaethau o fewn y cylch gwaith a'r polisi ac o fewn terfynau rheoleiddiol. Nid ydynt yn cyfrannu at yr adroddiad, oherwydd caiff yr adroddiad ei hun ei arwain a'i ysgrifennu gan y diwydiant. Dywedodd Rhys fod angen sicrhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael derbyniad da gan y gynulleidfa eang. Rhaid i'r adroddiad fod mor effeithiol â phosibl er mwyn ceisio sicrhau y bydd y cyrff perthnasol yn bwrw ymlaen â'r negeseuon a gynhwysir ynddo. Dywedodd Rhys ei fod yn awyddus i archwilio'r ffordd orau o geisio sicrhau y caiff yr adroddiad dderbyniad da ar ôl iddo gael ei gyhoeddi. Awgrymodd y gallai fynd ar drywydd hyn gyda Delyth ac Ieuan yn uniongyrchol.

***PG Medi 05: Dylai Rhys Jones gysylltu â Delyth Lewis-Jones, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, ac Ieuan S. Davies, CNC, i drafod y ffordd orau o sicrhau y bydd adroddiad y Grŵp Technegol Amaethyddol yn cael derbyniad da ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.***

48. Dywedodd Delyth y byddai'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i weld a oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r camau nesaf. Dywedodd Rhys y byddai'n dda o beth pe bai pethau'n cael eu cydweddu â chynllun cyfathrebu a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol i rywun o Lywodraeth Cymru fod yn rhan o'r drafodaeth honno.

***PG Medi 06: Dylai Delyth Lewis-Jones, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, ac Ieuan S. Davies, CNC, drafod y camau nesaf gyda Llywodraeth Cymru a gweld a oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â phwy a fydd yn sicrhau y bwrir ymlaen ag argymhellion yr adroddiad.***

49. Dywedodd Dennis fod mwy a mwy o grwpiau'n cael eu sefydlu heb iddynt gael eu hintegreiddio'n briodol. Oddeutu 10 mlynedd yn ôl, cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd brosiect mawr yn ymwneud â lleihau ffosffadau, o dan arweiniad Richard Dearing sydd bellach yn gweithio i CNC yn Nhîm Datganiad Ardal y Gogledd Ddwyrain. Cynigiai'r prosiect hwnnw samplu pridd am ddim, samplu tail am ddim ac yna ymgynghoriad am ddim gyda chynghorydd ADAS i geisio lleihau ffosffadau yn y ddwy afon. Ni wyddai Dennis beth yn union a ddigwyddodd, ond dywedodd y byddai'r adroddiad hwn yn un diddorol iawn i'w ystyried.

## Eitem 7. Unrhyw fater arall

50. Dywedodd Rhys fod Bronwen yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal ymweliad safle arall dros yr ychydig fisoedd nesaf cyn i'r tywydd waethygu, felly cadwch olwg am ragor o wybodaeth.

51. Ni chodwyd unrhyw fater arall.